

## POLISI CWRICWLWM

### Cyflwyniad

Yn “Y Cwricwlwm 5 - 16” (AEM 1985) diffinnir cwricwlwm yr ysgol fel “yr holl weithgareddau hynny, a gynlluniwyd neu a anogwyd o fewn y fframwaith cyfundrefnol, i hyrwyddo datblygiad deallusol, personol, cymdeithasol a chorfforol ei disgyblion. Yn ogystal â'r rhaglen ffurfiol o wersi mae'n cynnwys y rhaglen o weithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol ynghyd â'r nodweddion hynny sy'n creu ethos yr ysgol megis ansawdd y berthynas rhwng unigolion, y pwyslais a roddir ar sicrhau cyfle cyfartal, y gwerthoedd a adlewyrchir yn y modd y mae'r ysgol yn gweithredu ac yn cael ei threfnu a'i rheoli”.

Gwelir bellach fod pwyslais cynyddol ar ddatblygiad sgiliau Llythrennedd, Rhifedd, TGCH a Datblygu Meddwl, ar draws y cwricwlwm er mwyn darparu profiadau cydlynus, datblygol i ddisgyblion. Mae datblygiad y sgiliau hyn yn allweddol er mwyn galluogi disgyblion yr ysgol i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd. Yn atodol, mae hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig, Cymru Ewrop a'r Byd, Sgiliau Creadigol a Sgiliau Addysg Personol a Chymdeithasol yn ganolog i amcanion cwricwlwm yr ysgol.

Mae diwallu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh), 2013, yn flaenoriaeth i'r ysgol gyfan. Mae diwygiadau i holl gynlluniau gwaith yr ysgol yn arddangos yn glir fod yr ysgol yn ymraffael â'r her er mwyn hyrwyddo a meithrin y medrau allweddol yma i'r eithaf. Mae'r FfLIRh yn adnodd allweddol wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae hefyd yn disodli'r agweddau Cyfathrebu a Rhifedd o'r Fframwaith Sgiliau 2008. Bydd yr ysgol yn ffocysu ar sicrhau mai sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yw prif ffocws gwaith cynllunio yng nghyd-destun pob pwnc ac felly daw cynllunio cwricwlwm mewn ffordd glir a chydlynol yn elfen hanfodol o lwyddiant ar draws yr ysgol. Wrth gyflwyno'r FfLIRh bydd yr ysgol yn sicrhau fod y gwaith cynllunio yn cynnwys camau pendant i ddatblygu Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd fel prif ffocws ac nid fel agwedd ychwanegol.

Mae'r ddogfen 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' (2008) hefyd yn cynorthwyo athrawon i gynllunio'n briodol yng nghyd-destun y gwahanol sgiliau uchod ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwallu gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), 2009. Ers Medi 2011 mae'r Ysgol wedi bodloni'r gofynion yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5. Mae'r Ysgol yn cydweithio o fewn Partneriaeth Ysgolion 'Cyfleoedd' (Ysgolion Cyfun Cymer Rhondda, Garth Olwg, Llanhari a Llangynwyd) er mwyn ehangu'r ddarpariaeth alwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 5.

Mae'r cwricwlwm ysgol gyfan hefyd yn diwallu gofynion y cyhoeddiadau canlynol:

- Gyrfaoedd a'r byd gwaith:fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru, 2008.
- Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 – 19 oed yng Nghymru, 2008.
- Bwyd a Ffitrwydd yn y cwricwlwm yng Nghymru, 2009,
- Cymru, Ewrop a'r Byd- Fframwaith ar gyfer dysgwyr 14-19 oed yng Nghymru, 2009.
- Undod ac Amrywiaeth, 2010.

Yr her i ni, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun, yw sicrhau cyfleoedd heriol i ddisgyblion er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol ymhob maes dysgu trwy ddiwygio'r cwricwlwm fel ei bod yn fwy echblyg, yn berthnasol i'r 21 ain ganrif, yn ddysgwr-ganolog ac yn canolbwyntio ar sgiliau, a heb fod o anghenrhiedrwydd wedi'i selio ar bynciau. Dyma oedd y cyngor a roddwyd gan ACCAC, 'Adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu 5-16'(2004).

Fe gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol fel rhan o Ddeddf Ddiwygio Addysg 1988, ac mae'n parhau yn sail statudol i ddarpariaeth addysgol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n hanfodol i'r cwricwlwm baratoi disgyblion ar gyfer bywyd a byd gwaith yn unfed ganrif ar hugain gan ddatblygu eu hyder ynghyd a sgiliau sylfaenol a sgiliau allweddol. Mae'r cwricwlwm ysgol wedi ei gynllunio i baratoi'r disgyblion at ddyfodol aml-yrfa lle bydd y pwyslais ar drosi sgiliau o un maes i faes arall. Ffocysir hefyd ar hyrwyddo datblygiad ac ymwybyddiaeth y disgyblion: o'u hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol, eu gwerthfawrogiad o'u treftadaeth Gymreig, a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd fel arf allweddol wrth sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r agweddau hyn yn greiddiol i'n hethos fel Ysgol Gyfun Gymraeg a'r un mor berthnasol i bynciau eraill y cwricwlwm.

## **Athroniaeth**

Y Cwricwlwm yw calon yr ysgol ac mae'n cynrychioli "yr holl weithgareddau hynny a gynlluniwyd neu a anogwyd o fewn y fframwaith cyfundrefnol, er mwyn budd a lles y disgyblion". Mae darparu Cwricwlwm eang ac addas yn flaenoriaeth gan sicrhau parch cyfartal rhwng y llwybrau dysgu galwedigaethol a chyffredinol. Dylai pawb sydd â rhan yn rheoli'r broses hon o fewn yr ysgol sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm a ddarperir. Dylid darparu ar gyfer plant â ganddynt anghenion addysgol arbennig yn unol â'r Cod Ymarfer (2004). Dylai'r Cwricwlwm ganiatáu i holl ddisgyblion yr ysgol ymgysgu at eu potensial.

## **Amcanion y Cwricwlwm**

Pwrpas y cwricwlwm yw hyrwyddo datblygiad academiaidd, corfforol, cymdeithasol, emosiynol a moesol pob disgybl yn yr ysgol, fel aelodau o gymdeithas, gan eu paratoi ar gyfer bywyd oedolyn a dysgu gydol oes. Dylid felly gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu hyd eithaf eu gallu.

Mae angen i'r cwricwlwm alluogi disgyblion i arddangos eu doniau ac i'r ysgol ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd yn y meysydd academiaidd, diwylliedig a chwaraeon. Os nad yw'r cwricwlwm yn llwyddo i ysgogi disgyblion i fwynhau'r broses o ddysgu, profi llwyddiant ac ymestyn dealltwriaeth yna nid yw yn diwallu anghenion y disgybl nac yn hyrwyddo ethos yr ysgol.

## **Nodweddion y Cwricwlwm**

Bydd y nodweddion canlynol yn sail i gynllunio Cwricwlwm sy'n diwallu anghenion yr ysgol.

- **Ehangder a Chydbwysedd**

Bydd yr ysgol yn ymrwymo'n llwyr i gynnig dewisiadau cadarn i fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (2009).

- **Hyblygrwydd**

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd ystyried yn llawn anghenion a chyrhaeddiad pob unigolyn. Dylid darparu cwricwlwm sy'n yn ateb gofynion unigol pob disgybl. Dylid ystyried fod gan bob disgybl anghenion penodol a bod rhaid eu galluogi i gyfrannu at weithgareddau'r dosbarth er mwyn cynnal cymhelliant a sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw garfan - o'r gallu isel, i'r disgyblion mwyaf disglair. Dylid cadw'r hawl i gyfeirio'r disgyblion at gyrsiau addas yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5. Gall hyn olygu atal disgybl rhag astudio pwnc penodol neu arallgyfeirio disgybl yn ystod cyfnod astudio os yw'r lefelau cyrhaeddiad yn golygu fod y disgybl yn methu yn y pwnc.

Dylid cynllunio'r defnydd amser - hynny yw hyd a phatrwm y diwrnod, wythnos a thymor ysgol - er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r disgyblion.

- **Perthnasedd**

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer disgyblion ystyried yn llawn eu gofynion, eu diddordebau a'u profiad fel dysgwyr ac unigolion, gan eu paratoi ar gyfer bywyd a'r byd gwaith fel oedolion.

- **Cysondeb**

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd sicrhau fod safonau cyrhaeddiad ac ansawdd y dysgu a'r addysgu yn cael eu cynnal a'u gwella.

- **Dilyniant a Datblygiad**

Dylid cynllunio a darparu'r ddarpariaeth gwricwlaidd o fewn ac ar draws y cyfnodau allweddol (CA2-CA3; CA3-CA4; CA4-CA5), gan sicrhau dilyniant ac ansawdd yn y Llwybrau Dysgu.

- **Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd**

Dylai'r ddarpariaeth gwricwlaidd sicrhau fod ansawdd yr addysg a ddarperir yn cael ei gynnal a'i wella drwy ddefnydd effeithiol o adnoddau.

(Arfernir effeithiolrwydd yr egwyddorion uchod trwy brosesau hunan arfarnu'r ysgol)

### **Arfarnu ac Adolygu**

Dylid adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol ac yn systematig yn erbyn meini prawf sy'n mesur sut mae'r cwricwlwm:

- yn cyfrannu at gyflawni safonau cyrhaeddiad a chyflawniad uchel.
- yn adlewyrchu amcanion yr ysgol gan ystyried eu cysondeb a'r graddau y maent yn adlewyrchu'r amcanion a osodwyd ar gyfer plant o oedran ysgol statudol yn Neddf Addysg 1988.
- yn eang a chytbwys yn nhermau profiadau'r disgybl, cynlluniau gwaith pynciau unigol, a chynlluniau'r ysgol ar gyfer darparu elfennau trawsgwricwlaidd.
- yn cydymffurfio â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- yn cyflwyno cynnwys sy'n addas i gyraeddiadau'r disgyblion.
- wedi ei drefnu'n effeithiol o ran grwpio disgyblion, o fewn dosbarthiadau gallu cymysg, ffrydiau, carfanau neu fandiau; tynnu disgyblion allan o'r dosbarth neu ddarparu cefnogaeth ychwanegol.
- yn paratoi disgyblion ar gyfer cyflogaeth gan arddel nodweddion Dysgu Gydol Oes.
- wedi ei gyfoethogi gan weithgareddau allgyrsiol, sy'n cyfannu'r rhaglen ffurfiol.
- yn caniatáu i bob disgybl fynediad cyfartal i'r holl brofiadau a gynigir gan yr ysgol.

## **Gwerthoedd Ac Ethos Yr Ysgol**

Dylai'r cwricwlwm adlewyrchu gwerthoedd ac ethos yr ysgol a sefydlwyd gan y staff, rheolwyr, rhieni a'r gymuned leol. Mewn ysgol Gymraeg mae ymwybyddiaeth gynyddol ein disgyblion o'r nodweddion hynny sydd wedi rhoi ac yn parhau i roi hunaniaeth gymdeithasol, ddaearyddol, hanesyddol a diwylliannol Gymreig yn allweddol bwysig ar draws y cwrs addysg.

### **Themâu Traws Gwricwlaidd**

Dylid cynnwys gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd yn hybu'r themâu canlynol yn y cwricwlwm ffurfiol a chudd, yn ystod y cyfnodau allweddol gwahanol :-

- Y Cwricwlwm Cymreig
- Addysg Gyrfaoedd : Arweiniad a Chynghori
- Dealltwriaeth Economaidd A Diwydiannol
- Addysg a Diwydiant
- Addysg a'r Gymuned
- Addysg Amgylcheddol
- Cyfle Cyfartal
- Addysg Iechyd
- Technoleg Gwybodaeth
- Addysg Aml-ddiwylliannol
- Addysg Personol A Chymdeithasol
- Y Dimensiwn Ewropeaidd a'r Byd
- Iaith Ar Draws Y Cwricwlwm

Wrth reswm, bydd gallu pwnc i hyrwyddo'r themâu hyn yn amrywio yn ôl ei natur a'i ofynion penodol. Fodd bynnag, disgwylir i bob adran gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r agweddau hyn yn gynyddol yn ystod eu gyrfa ysgol.

**Lluniwyd Ionawr 1996**  
**Cadarnhawyd gan y Llywodraethwyr Ionawr 1996**  
**Cyflwynwyd i'r Penaethiaid Adran Ionawr 1996**

**Diweddarwyd Medi 1999**  
**Diweddarwyd Medi 2003**  
**Diweddarwyd Medi 2005**  
**Diweddarwyd Medi 2007**  
**Diweddarwyd Hydref 2009**  
**Diweddarwyd Ionawr 2014**  
**Diweddarwyd Medi 2016**

**Dogfennau perthnasol:**

Dogfen Cwricwlwm yr Ysgol 2016-17  
Sgiliau ar draws y Cwricwlwm (ACCAC, 2002)  
Cwricwlwm o gyfle: Datblygu Potensial yn berfformiad (ACCAC, 2003)  
Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig (ACCAC, 2003)  
Llwybrau Dysgu 14-19 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)  
Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)  
Manteisio i'r eithaf ar y Dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)  
Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)  
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013)  
Canllaw ar gynllunio'r cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2013)